# Arwain 2018


Prifysgol Abertawe
Swansea University



# Aur Cymru

Mae Prifysgol Abertawe wedi cadarnhau ei safle yn un o brifysgolion gorau y Deyrnas Gyfunol ers iddi ennill safon aur – y safon uchaf posib – yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr (TEF) cenedlaethol.

Nod y Fframwaith yw cydnabod, gwobrwyo a gwella dysgu ac addysgu mewn sefydliadau addysg uwch ledled y Deyrnas Gyfunol. Mae hefyd yn ceisio rhoi gwybodaeth glir a dealladwy i fyfyrwyr am ble mae'r addysgu gorau ar gael a ble mae myfyrwyr yn ennill y canlyniadau gorau.

FfRhA Aur Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu

Panel annibynnol o arbenigwyr addysg, academyddion, myfyrwyr a chyflogwyr sy'n asesu perfformiad prifysgolion mewn tri maes eang – ansawdd addysgu, amgylchedd dysgu a chanlyniadau myfyrwyr – ac i gyrraedd safon aur, mae angen tystiolaeth o ddarpariaeth ragorol ym mhob un ohonynt.

Mae'r cyfleoedd sydd ar gael yn Abertawe i astudio drwy'r Gymraeg wedi cyfrannu at lwyddiant rhagorol y Brifysgol ym mhob un o'r meysydd hyn.

"Rydym yn hynod falch fod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chydnabod fel rhan annatod o'r Safon Aur sydd wedi cael ei hennill gan y Brifysgol," meddai Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi, Dr Gwenno Ffrancon.

"Mae'n glod i ymdrechion pawb sydd wedi gweithio i sicrhau'r cynnydd sylweddol mewn cyfleoedd i fyfyrwyr Cymraeg yn y Brifysgol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n adlewyrchu'r patrwm calonogol iawn a welwn ni wrth i'n graddedigion cyfrwng Cymraeg brofi llwyddiant yn eu hastudiaethau a'u gyrfaoedd dilynol."

Wrth groesawu dyfarniad y Fframwaith, meddai'r Dirprwy Is-ganghellor, yr Athro Martin Stringer:

"Mae'r Safon Aur hon yn adlewyrchu safon uchel yr addysgu a'r profiad rhagorol y mae Abertawe'n eu cynnig i fyfyrwyr ynghyd ag ymchwil a chyfleusterau o'r radd flaenaf."

## AR Y BRIG

Nid dim ond y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu sydd wedi cydnabod cynnydd aruthrol Prifysgol Abertawe, ond tabl cynghrair The Guardian University Guide 2019 hefyd.

Mae Abertawe wedi codi 14 lle i safle 31 allan o 121 o sefydliadau yn y tabl sy'n golygu ei bod wedi cyrraedd y brig ymhlith prifysgolion Cymru.

Mae'r tabl yn canolbwyntio ar yr agweddau o fywyd prifysgol sy'n bwysicaf i bobl ifanc – sef ansawdd yr addysgu, bodlonrwydd myfyrwyr a chyflogadwyedd.

Mae Abertawe wedi cyrraedd safle 13 yn y Deyrnas Gyfunol am fodlonrwydd myfyrwyr a safle 16 am ei gwaith yn cynorthwyo myfyrwyr i ganfod i swyddi addas ar ôl graddio.

Mae tabl cynghrair cyffredinol The Guardian hefyd yn dangos bod Prifysgol Abertawe yn rhagori mewn nifer sylweddol o feysydd astudio – yn ail mewn Nyrsio a Bydwreigiaeth, er enghraifft, a thrydydd mewn Meddygaeth a Throseddeg.

Mae 9 maes pwnc arall yn ymddangos ymhlith yr 20 uchaf sef Polisi Cymdeithasol, Astudiaethau Americanaidd, Peirianneg: Deunyddiau a Mwynau, Astudiaethau'r Cyfryngau a Ffilm, Ffiseg, Gwaith Cymdeithasol, Peirianneg: Cyffredinol, Gwleidyddiaeth a Gwyddor Chwaraeon.

"Mae'r neges yn glir – mae'r myfyrwyr sy'n astudio yma yn mwynhau'r profiad, yn cael eu hysbrydoli ac maen nhw'n llwyddo," meddai'r Athro Hilary Lappin-Scott, Uwch Ddirprwy Is-ganghellor Prifysgol Abertawe.

# Adeiladau'n bwerdai arloesol


Mae adeiladau newydd ym Mhrifysgol Abertawe yn torri tir newydd trwy gynhyrchu a storio mwy o ynni solar nag y maent yn ei ddefnyddio eu hunain.

Gydag adeiladau'n cyfrif am 40% o'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio ym Mhrydain, fe fydd y 'Swyddfa Weithredol' a'r 'Ystafell Ddosbarth Weithredol' yn dangos y ffordd i genhedlaeth newydd o swyddfeydd ac adeiladau carbon isel.

Cafodd yr adeiladau hyn – adeiladau ynni cadarnhaol cyntaf y Deyrnas Gyfunol – eu dylunio gan Ganolfan Arloesi a Gwybodaeth SPECIFIC, Prifysgol Abertawe.



Mae'r adeiladau'n cyfuno amrywiaeth o dechnolegau arloesol sy'n creu, storio a rhannu ynni solar mewn un system integredig sy'n cynnwys celloedd solar yn y to, system i droi ynni'r haul yn wres a thrydan, batris i storio'r trydan a thanc dŵr i storio'r gwres.



Y Swyddfa Weithredol gyda'r Ystafell Ddosbarth Weithredol o'i blaen.

Mae'r Swyddfa Weithredol a'r Ystafell Ddosbarth wedi eu cysylltu ynghyd gan eu galluogi i rannu ynni â'i gilydd a chyda cherbydau trydan. Yn hyn o beth, maent yn dangos sut y gellid ffurfio cymuned pŵer solar sy'n hunangynhaliol o ran ynni.

Ar achlysur agoriad swyddogol y Swyddfa Weithredol, meddai Kevin Bygate, Prif Weithredwr SPECIFIC: "Mae swyddfeydd yn defnyddio symiau enfawr o ynni, felly trwy eu gwneud yn gadarnhaol o ran ynni, mae potensial i leihau biliau tanwydd a lleihau eu hallyriadau carbon yn sylweddol."

Gwaith hawdd fyddai atgynhyrchu'r math hwn o swyddfa o ganlyniad i'w dyluniad. Mae'r gwaith adeiladu'n gyflym, gan gymryd un wythnos yn unig i'w rhoi at ei gilydd, gyda llawer o'r gwaith adeiladu'n digwydd oddi ar y safle. Dim ond technolegau sydd ar gael eisoes y mae'n eu defnyddio, sy'n golygu nad oes rheswm pam na ellid eu defnyddio ar unrhyw adeilad newydd.

"Mae troi ein hadeiladau'n orsafoedd pŵer yn gysyniad sy'n gweithio a bydd yr adeilad newydd hwn yn ein galluogi i gael data a thystiolaeth i'n helpu i ddatblygu'r dyluniad ymhellach', meddai Kevin Bygate.

"Mae'n swyddfa ar gyfer yfory – ond yn un y gallwch ei hadeiladu heddiw."

# Gwyddonydd disglair yw'r Canghellor newydd



Mae Canghellor newydd Prifysgol Abertawe yn wyddonydd disglair ac yn un o gyn-fyfyrwyr y Brifysgol.

Cafodd yr Athro Fonesig Jean Thomas, DBE, sy'n un o academyddion mwyaf disglair Prifysgol Caergrawnt ac yn Llywydd y Gymdeithas Bioleg Frenhinol, ei phenodi i olynu'r diweddar Rhodri Morgan a fu'n Ganghellor rhwng 2011 a 2017.

Daw ei rôl newydd â hi'n ôl i ddinas ei geni ac i'w hen brifysgol lle enillodd radd Dosbarth Cyntaf mewn Cemeg yn 1964 a Doethuriaeth mewn Cemeg yn 1967.


Yn ogystal â bod yn Athro Biocemeg yng Nghaergrawnt ers 1991, fe fu'n Feistr Coleg St Catherine yno – y fenyw gyntaf i gyflawni'r rôl ers mwy na 600 o flynyddoedd.

Mae hi wedi derbyn gwobrau ac anrhydeddau niferus drwy gydol ei gyrfa gan wasanaethu ar lawer o gyrff cenedlaethol. Cafodd ei hethol yn un o Gymrodorion y Gymdeithas Frenhinol ym 1986 ac mae hefyd yn un o Gymrodorion Academi'r Gwyddorau Meddygol a Chymdeithas Ddysgedig Cymru ac yn aelod o Sefydliad Bioleg Foleciwlaidd Ewrop (EMBO) ac Academia Europaea.

"Pan raddiais o Brifysgol Abertawe flynyddoedd maith yn ôl, ni allwn fod wedi dychmygu un diwrnod y byddai gen i'r fraint o wasanaethu fel ei Changhellor. Mae'r Brifysgol yn parhau i lwyddo ac i ehangu, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at fod yn rhan o'r uchelgais cyffrous hwn wrth i ni agosáu at y canmlwyddiant yn 2020," meddai.

Dywedodd Is-ganghellor Prifysgol Abertawe, yr Athro Richard B. Davies, ei bod yn anrhydedd o'r mwyaf i'r Brifysgol gael Jean Thomas yn Ganghellor.

"Wrth i ni symud yn nes at gyflawni ein nod o fod ymysg y 200 o brifysgolion gorau yn y byd, ni allwn feddwl am neb gwell na'r Athro Thomas i'n harwain ac i adlewyrchu ein gwerthoedd o ragoriaeth academaidd, arloesi ac uchelgais mawr."



© Llenyddiaeth Cymru / Camera Sioned

# Y wobr i Wynn am waith arloesol

Mae'r Athro M. Wynn Thomas o Adran Saesneg Prifysgol Abertawe wedi cipio un o brif wobrau cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn 2018 gyda'i gyfrol o draethodau llenyddol sy'n ffrwyth ugain mlynedd o waith.

*All That Is Wales: The Collected Essays of M. Wynn Thomas* oedd enillydd y Wobr Ffeithiol Greadigol Saesneg.

"Roedd hi'n sioc o'r mwyaf ond hefyd yn anrhydedd i ennill un o wobrau Llyfr y Flwyddyn, am ei bod yn gydnabyddiaeth o dros ugain mlynedd o waith i geisio sicrhau fod llenyddiaeth Saesneg Cymru yn cael sylw teilwng," meddai'r Athro M. Wynn Thomas.

"Ac nid gwaith gen i yn unig ond hefyd gan genhedlaeth o athrawon prifysgol nad oedd yn derbyn cefnogaeth o gwbwl ar y dechrau."

Mae ei gyfrol yn bwrw golwg ar waith rhai llenorion penodol ac yn disgrifio Cymru fel 'gwlad meicro-cosmopolitaidd'.

Yr Athro M. Wynn Thomas sy'n dal Cadair Emyr Humphreys am Ysgrifennu Cymreig yn y Saesneg yn y Brifysgol, ac mae'n arbenigwr mewn barddoniaeth Americanaidd a llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg Cymru. Mae hefyd yn Gadeirydd Cyngor Llyfrau Cymru ac yn awdur dros 20 o lyfrau.

"Fel beirniad llenyddol blaenllaw sydd wedi ennill bri anrhydeddus yn y byd academaidd, mae Wynn yn cyflwyno syniadau cymhleth mewn modd cywrain a dealladwy, ac yn cyfoethogi diwylliant deallusol Cymru ar gyfer cynulleidfa eang," meddai Sarah Lewis, Pennaeth Comisiynu Gwasg Prifysgol Cymru, cyhoeddwyr y gyfrol.

# Mynd â'r Gymraeg i'r Gelli

Am y tro cyntaf, roedd digwyddiadau Cymraeg, gyda chyfieithu ar y pryd, yn rhan o gyfres Prifysgol Abertawe yng Ngŵyl y Gelli eleni.

Fe fu Academi Hywel Teifi yn cynnal dau ddigwyddiad yno; un i nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Mawr a'r llall i roi sylw i un o bynciau mwyaf dyrys ein dydd, sef newid hinsawdd.

'Marwolaeth Heddwch' oedd teitl y drafodaeth gyntaf. Fe fu'r Athro Brifardd Alan Llwyd o Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe, a ysgrifennodd y ffilm 'Hedd Wyn', yn trafod effaith y Rhyfel ar hanes a diwylliant Cymru â Dr Aled Eurig o Academi Morgan, sy'n awdur dwy gyfrol, sydd ar fin eu cyhoeddi, ar wrthwynebiad i'r Rhyfel yng Nghymru.

Y bardd, darlledwr ac aelod blaenllaw o'r ymgyrch i sefydlu Academi Heddwch Cymru, yr Athro Mererid Hopwood, oedd cadeirydd y drafodaeth.

Yn yr ail ddigwyddiad, fe fu'r arbenigwraig fyd-eang ar newid hinsawdd, yr Athro Siwan Davies o Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Abertawe, yn trafod y gyfres ddogfen *Her yr Hinsawdd* yng nghwmni cynhyrchydd y gyfres Dr Elin Rhys, Telesgôp.

Cafwyd sgwrs ddifyr rhwng y ddwy ar bwysigrwydd cyfathrebu ymchwil gwyddonol i'r cyhoedd mewn modd poblogaidd.

"Roedd yn bleser gan Academi Hywel Teifi gynnal y sesiynau hyn a oedd yn arddangos arbenigedd ysgolheigion cyfrwng Cymraeg Prifysgol Abertawe – a hynny mewn gŵyl sy'n denu ymwelwyr o bedwar ban byd," meddai Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi, Dr Gwenno Ffrancon.

"Mae'n golygu bod mynychwyr yr ŵyl wedi cael profiad Cymraeg, gan glywed agweddau ar hanes, llenyddiaeth a gwyddoniaeth yn cael eu trafod yn yr iaith."




# Gofalu am y Dyfodol

Ym mis Mai 2018, cynhaliwyd cwrs arbennig ar y cyd rhwng Dysgu Cymraeg – Ardal Bae Abertawe, Prifysgol Abertawe a chanolfan iaith Nant Gwrtheyrn. Trefnwyd cwrs dysgu Cymraeg wedi'i deilwra yn benodol ar gyfer darpar feddygon a darpar nyrsys sy'n astudio ym Mhrifysgol Abertawe.



Treialwyd y cwrs – a gyllidwyd trwy gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol – mewn ymateb i alwadau cynyddol am weithwyr dwyieithog i'r sector iechyd a gofal. Roedd yn gwrs dwys ag iddo ogwydd feddygol a gofal iechyd penodol er mwyn galluogi'r dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg yn syth yn eu gweithleoedd.

Hebryngwyd 54 o fyfyrwyr y Brifysgol i leoliad hudolus Nant Gwrtheyrn lle cawsant wersi Cymraeg dwys gan bedwar o diwtoriaid profiadol a'u harwain ar ymweliadau amrywiol er mwyn cyflwyno iddynt brofiadau o fyw a gweithio mewn ardal Gymraeg. Tra y cafodd y myfyrwyr hyn – nifer ohonynt yn fyfyrwyr rhyngwladol sydd â'u bryd ar weithio yng Nghymru – deithiau i gartrefi henoed ac ysbytai lleol er mwyn gweld y Gymraeg ar waith mewn lleoliadau gofal iechyd, cawsant hefyd gyfle i ymweld â Chaernarfon yng nghwmni Rhys Mwyn a Bragdy Llŷn gyda'r Archdderwydd newydd, Myrddin ap Dafydd.

Mae'r adborth i'r cwrs wedi bod yn aruthrol, gyda nifer yn nodi sut y cawsant fodd i fyw yn dysgu'r iaith, yn meithrin yr hyder i ddefnyddio eu sgiliau newydd tra wrth eu gwaith, ac i ddysgu mwy am y diwylliant sydd ynghlwm wrth yr iaith. Bu cael eu trochi mewn amgylchedd cwbl Gymraeg yn Nant Gwrtheyrn yn brofiad ysbrydoledig i nifer. Mae'r Brifysgol bellach yn gweithio i adeiladu ymhellach ar lwyddiant y cwrs hwn ac arfogi'n myfyrwyr â sgiliau ieithyddol cyn iddynt raddio.



# Pleidleisio tros swyddog llawn amser i hybu'r Gymraeg

Mae myfyrwyr Prifysgol Abertawe wedi pleidleisio o fwyafrif mawr – 681 i 519 – o blaid newid rôl Swyddog Materion Cymraeg Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe o fod yn un rhan-amser i fod yn un llawn-amser gyda chyflog.

Roedd hynny'n cyflawni rhywbeth mae myfyrwyr Cymraeg wedi breuddwydio amdano ers blynyddoedd yn ôl Tomos Watson, Swyddog Materion Cymraeg rhan-amser presennol yr Undeb.

"Mae'r canlyniad yn anhygoel", meddai. "Bydd Swyddog llawn-amser yn sicrhau llais cryf i'r Gymraeg yn yr Undeb ac o fewn y sefydliad. Mae hyn yn sicrhau dyfodol disglair i'r gymuned Gymraeg yma yn Abertawe."

Mae'r datblygiad wedi cael ei groesawu'n frwd hefyd gan Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi.

"Hoffwn longyfarch aelodau Undeb Myfyrwyr Abertawe ar sicrhau bod llais cryfach o fewn yr Undeb gan y miloedd o siaradwyr Cymraeg sydd ymhlith myfyrwyr Prifysgol Abertawe," meddai.

"Bydd y swyddog nid yn unig yn codi llais ar ran Cymry Cymraeg ond yn fodd o sicrhau bod gan holl fyfyrwyr y sefydliad well dealltwriaeth o'r iaith a'i diwylliant.

"Edrychwn ymlaen at gydweithio agos a gweithgar gyda'r Swyddog pan fydd ef neu hi wedi'i hethol a chynnydd wedyn ym mhroffil a llewyrch y Gymraeg o fewn yr Undeb a'r Brifysgol."

Bydd etholiadau ar gyfer ethol y Swyddog Materion Cymraeg llawn amser cyntaf yn cael eu cynnal yng ngwanwyn 2019.



# Rebecca yn Ddysgwr y Flwyddyn

Un o gyn-fyfyrwyr Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe oedd enillydd Medal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed eleni – am yr ail dro'n olynol.

Athrawes Gymraeg ail iaith yw Rebecca Morgan, 24 oed, sydd bellach yn dysgu yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf yng Nghaerdydd ac roedd yn dilyn yn ôl traed Rebecca arall o'r Adran – Rebecca Jones, yr enillydd yn 2017.

A hithau'n wreiddiol o Bencoed, fe gafodd ei hysbrydoli gan ei hathrawon Cymraeg ail-iaith i astudio am radd BA yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe lle enillodd radd dosbarth cyntaf yn 2016.

"Ers pan o'n i'n ifanc, ro'n i'n mwynhau dysgu Cymraeg," meddai. "Nawr, ar ôl blynyddoedd o ddysgu, dw i mor falch o'r ffaith fy mod i'n gallu rhannu fy nghariad at yr iaith gyda'r disgyblion rwy'n eu dysgu bob dydd.

"Hoffwn i roi diolch enfawr i bob athro, athrawes a darlithydd sydd wedi fy ysbrydoli, ac i'm teulu a'm ffrindiau i gyd am eu cymorth parhaus. Y neges i bawb yw, os dw i'n gallu'i wneud e, mae pawb yn gallu'i wneud e!"

Dywedodd Dr Rhian Jones, Pennaeth Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe, fod pawb o'r staff a'r myfyrwyr yn llawenhau gyda Rebecca ac yn ymfalchïo yn ei champ.

"Treuliodd Rebecca dair blynedd gyda ni yn Adran y Gymraeg, Abertawe ac erbyn diwedd ei blwyddyn gyntaf yn dilyn y llwybr ail iaith, roedd yn gwbl rugl yn y Gymraeg," meddai.

"Dyw hi'n ddim syndod o gwbl i ni fel Adran iddi gael y fath lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd eleni."

# Her newydd yn Eisteddfod yr Urdd

Cystadleuaeth siarad cyhoeddus newydd, Her Academi Morgan, oedd un o uchafbwyntiau'r GwyddonLe, Pafiliwn Gwyddoniaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a gaiff ei gydlynu a'i noddi gan Brifysgol Abertawe.

Trefnwyd y gystadleuaeth ar gyfer disgyblion blwyddyn 11, 12 a 13 gan Academi Morgan, Academi Hywel Teifi ac Adran Daearyddiaeth Prifysgol Abertawe gyda'r nod o annog pobl ifanc Cymru i godi'u lleisiau ac i feithrin y grefft o ffurfio barn a hogi dadl. 'Mae ynni niwclear yn hanfodol er mwyn sicrhau cyflenwad ynni cynaliadwy i Gymru' oedd testun gosod yr her.

Dr Osian Elias o'r Adran Ddaearyddiaeth oedd yn cadeirio'r gystadleuaeth.

Y tair ysgol yn y rownd derfynol oedd Ysgol y Creuddyn, Ysgol Gartholwg ac Ysgol Bro Teifi gydag un disgybl o bob tîm yn dadlau dros y testun gosod a'r llall yn erbyn.



Mewn cystadleuaeth o safon hynod o uchel, enillydd tlws y siaradwr gorau oedd Ellen Jones o Ysgol y Creuddyn, a fydd yn manteisio ar brofiad gwaith yn Academi Morgan, Prifysgol Abertawe, neu gydag Aelodau Cynulliad ei hardal.

Meddai Helen Mary Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Academi Morgan, ac un o feirniaid y gystadleuaeth, "roeddwn wrth fy modd yn clywed cynifer o bobl ifanc yn dadlau eu hachos yn huawdl a chrefftus."

Daeth Gweinidog y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Eluned Morgan AC, hefyd i wylio Her Academi Morgan ac fe fu'n sgwrsio gyda'r cystadleuwyr wedi'r gystadleuaeth ynglŷn â'u safbwyntiau a'u profiadau.

Edrychwn ymlaen at gynnal yr Her yn Eisteddfod Bae Caerdydd y flwyddyn nesaf.